



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllun Iaith Gymraeg

Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993
Cymeradwywyd ar 03 Medi 2014



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Yr Arolygiaeth Gynllunio Asiantaeth Weithredol

Cynllun Iaith Gymraeg

Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg yr Arolygiaeth Gynllunio yn unol ag adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan adran 16 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, o dan bwerau a drosglwyddwyd i Gomisiynydd y Gymraeg drwy adran 143(4) Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, ar 03 Medi 2014.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

CYNNWYS	Tudalen
Datganiad	iii
1. Cyflwyniad	1
2. Cynllunio a Darparu Gwasanaethau	3
2.1 Polisiâu a Mentrau Newydd	3
2.2 Darparu Gwasanaethau	3
2.3 Safon y Gwasanaeth yn y Gymraeg	4
3. Ymdrin â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg	5
3.1 Cyfathrebu'n Ysgrifenedig ac yn Electronig	5
3.2 Llythyrau Penderfyniad ac Adroddiadau	5
3.3 Cyfathrebu dros y Ffôn	6
3.4 Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb	7
3.5 Ymchwiliadau Cyhoeddus, Gwrandawiadau, Cyfarfodydd ac Ymweliadau Safle yng Nghymru	7
3.6 Dulliau Eraill o Ymdrin â'r Cyhoedd	9
4. Wyneb Cyhoeddus yr Arolygiaeth Gynllunio	9
4.1 Delwedd Gorfforaethol	9
4.2 Cyhoeddiadau	9
4.3 Ffurflenni	10
4.4 Hysbysiadau i'r Wasg	10
4.5 Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio	10
4.6 Gweithgareddau Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd	11
4.7 Gwefan	11
5. Gweithredu'r Cynllun	12
5.1 Staffio	12
5.2 Recriwtio	12
5.3 Dysgu Cymraeg	13
5.4 Hyfforddiant Galwedigaethol	13
5.5 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg	14
5.6 Bathodynnau Iaith Gwaith	14
5.7 Trefniadau Gweinyddol	14
5.8 Gwasanaethau a Ddarperir ar Ein Rhan gan Bartïon Eraill	14
5.9 Gwasanaeth Cyfieithu	15
6. Gweithredu a Monitro	15
6.1 Cymeradwyaeth Lawn yr Arolygiaeth Gynllunio	15
6.2 Monitro	15
7. Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun	17
8. Cwynion a Sylwadau	18
9. Amserlen	19

Datganiad

Mae'r cynllun hwn yn esbonio sut y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 sef, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Mae'n pennu'r mesurau y mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni hyn, o ran darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'n cynrychioli'r hyn sy'n briodol o dan yr amgylchiadau a'r hyn sy'n rhesymol ymarferol.

Mae Cydraddoldeb Iaith wedi dod yn fwyfwy pwysig yng Nghymru, y DU ac yn Ewrop. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn sicrhau bod rhoi'r Cynllun hwn ar waith yn trawsgyfeirio â deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau cenedlaethol a rhyngwladol o ran iaith, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i'r canlynol:

- Y Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol – siarter a lywodraethir gan y Cyngor Ewropeaidd ac wedi'i llofnodi gan Lywodraeth y DU;
- Cymal 32 Deddf Llywodraeth Leol;
- Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru;
- Safon Cydraddoldeb Llywodraeth Leol;
- Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru at gyfer Cymru Ddwyeithog; a
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (yn benodol cymalau 1 a 111)

Cymeradwywyd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2010 a chafodd gysyniad brenhinol ym mis Chwefror 2011. Mae'r Mesur un cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru; yn creu fframwaith newydd ar gyfer gosod cyfrifoldeb ar sefyldliadau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg a sefydlodd rôl newydd Commisiynydd y Gymraeg. Er bod y Mesur yn gyfreithiol erbyn hyn, ni fydd nifer o rannau'r Mesur yn dod i rym hyd nes y caiff is-ddeddfwriaeth ei chyflwyno drwy reoleiddio. Felly, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gweithredu yn unol â'i Chynllun Iaith Gymraeg hyd nes bod ganddi ddyletswydd i gydymffurfio â safonau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cadw at yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal a byddwn yn hwyluso rhyddid unigolyn i gyfarthrebu ag eraill yn Gymraeg, heb i eraill ymyrryd.

Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn Asiantaeth Weithredol yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru. Ein nod ar gyfer yr Arolygiaeth Gynllunio yw darparu gwasanaeth cynllunio ac apeliadau cenedlaethol rhagorol y mae Gweinidogion, y cyhoedd a phob rhanddeiliad yn ymfalchïo ynddo a'i barchu.
- 1.2 Rydym yn cyflogi dros 600 o bobl. Mae ein pencadlys ym Mryste lle lleolir y rhan fwyaf o'r uwch staff rheoli a'r staff gweinyddol ond mae Cyfarwyddwr Cymru wedi'i leoli ym Mharc Cathays, Caerdydd, ynghyd â thîm o ryw 20 o staff gweinyddol sy'n ymdrin â'r gwaith achos ar gyfer Cymru.
- 1.3 Yn ogystal, mae rhyw 200 o Arolygwyr Cynllunio Cyflogedig sy'n gweithio gartref - ac mae 14 o'r rhain yn perthyn i grŵp sy'n gweithio yng Nghymru yn bennaf - yn cynnal ymchwiliadau a gwrandawiadau cyhoeddus ac yn ymgymryd ag ymweliadau safle mewn perthynas ag ystod eang o faterion yn unol â deddfwriaeth gwlad a thref a deddfwriaeth arall. Rydym yn cynnig gwaith ar sail contract i ryw 75 o arolygwyr.
- 1.4 Mae ystod eang ein gwaith yn cwmpasu apeliadau a gwaith achos arall sy'n ymwneud â deddfwriaeth cynllunio, tai, yr amgylchedd, priffyrdd a deddfwriaeth arall. Mae'r rhan fwyaf o waith yr Arolygiaeth yn deillio o apeliadau cynllunio cyffredinol, gorfodi ac archwiliadau i gynlluniau datblygu.
- 1.5 Ar ôl cau'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio hefyd yn ymdrin â cheisiadau am ganiatâd datblygu ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr.
- 1.6 Mae gwaith yr Arolygiaeth yng Nghymru wedi dargyfeirio fwyfwy wrth y gwaith yn Lloegr. Er bod y ddeddfwriaeth sylfaenol i raddau helaeth yr un, mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn cynnwys darpariaethau penodol ar gyfer Cymru gan gynnwys Rhan 6 sy'n gosod y sylfeini ar gyfer y system Cynllun Datblygu Lleol sy'n amlwg yn wahanol i'r Fframweithiau Datblygu Lleol yn Lloegr. Mae'n debygol y bydd deddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol hefyd yn cynnwys darpariaethau penodol ac ar wahân ar gyfer Cymru. Mae pwysigrwydd y Gymraeg fel y'i hymgorfforir yn Neddf yr Iaith Gymraeg yn nodwedd unigryw o'r system gynllunio yng Nghymru.
- 1.7 Cred y Llywodraeth y dylai gwasanaethau yn Gymraeg fod yn rhan annatod o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Arolygiaeth yn gweithredu'r polisi hwnnw wrth gyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nod yr Arolygiaeth yw darparu gwasanaeth yr un mor safonol i'w cwsmeriaid drwy gyfrwng y ddwy iaith, a bydd yn anelu at sicrhau bod cyfleusterau ar gael i sicrhau cyflawnder a chysondeb o ran safon y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid sy'n siarad Gymraeg. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gweithredu'r polisi hwn drwy fabwysiadu'r egwyddorion canlynol fel y gall cwsmeriaid yng Nghymru gynnal eu busnes gyda ni yn eu dewis iaith:
 - Cydnabyddir y gall ein cwsmeriaid fynegi eu barn yn well yn eu dewis iaith gyfathrebu;

- Rydym yn cydnabod bod croesawu ein cwsmeriaid yn eu dewis iaith yn fater o arfer da a gofal cwsmeriaid; a
- Derbynnir yn unol â'r ysbryd o gydraddoldeb a fynegir yn Neddf yr Iaith Gymraeg fod gan ein cwsmeriaid yr hawl i ddewis pa un a ydynt yn dymuno cyfathrebu gyda ni a'n Harolygwyr Cynllunio yn Gymraeg neu yn Saesneg.

1.8 Am fwy o wybodaeth ar y gwaith rydym yn ei wneud, ewch i'n gwefan yn www.planninginspectorate.wales.gov.uk.

Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

2.1 Polisiâu a Mentrau Newydd

- 2.1.1 Caiff y polisiâu, yr arweiniad a'r gwasanaethau y mae gennym gyfrifoldeb uniongyrchol drostynt eu cyflwyno'n gyson â'r Cynllun hwn, â'r egwyddorion a fabwysiadir gan yr Arolygiaeth ac yn dilyn gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ymrwymo i beidio â diwygio'r Cynllun hwn heb ymgynghori'n gyntaf â Chomisiynydd y Gymraeg, nac i ddiwygio'r Cynllun diwygiedig, os yw'n effeitho ar Gynlluniau sefydliadau eraill.
- 2.1.2 Pan fydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cynllunio ac yn llunio polisiâu neu fentrau newydd byddwn yn asesu'r canlyniadau ieithyddol er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â'r ymrwymadau a geir yn y cynllun hwn. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn defnyddio polisiâu a mentrau newydd i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ble bynnag y bo'n bosibl ac i symud yr Arolygiaeth Gynllunio yn agosach at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb bob cyfle a ddaw.
- 2.1.3 Tynnir sylw staff sydd ynghlwm wrth ffurfio a rhoi polisiâu a mentrau newydd ar waith at ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Cynllun hwn. Caiff canllawiau eu rhoi i staff yn ymwneud ag effeithiau tebygol y cynigion newydd ar y Cynllun hwn a'r camau sydd eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth â'r mesurau hyn.
- 2.1.4 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ymrwymedig i weithredu o fewn telerau'r cynllun hwn ac mae'r Cyfarwyddwyr yn atebol i'r Prif Arolygydd Cynllunio o ran ei lwyddiant. Cyfarwyddwr Cymru sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau y caiff y cynllun ei weithredu, dros arolygu ei weithrediad a thros gyflwyno adroddiadau arno.
- 2.1.5 Bydd y staff - yn cynnwys rhai newydd - yn cael canllawiau manwl ar y defnydd o'r Gymraeg yn yr Arolygiaeth Gynllunio a goblygiadau'r cynllun hwn. Darperir canllawiau hefyd i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI), hyrwyddwyr prosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd (NCSIP) ac Arolygwyr Cynllunio yn amlygu ein disgwyliadau o ran delio â'r cyhoedd yng Nghymru.

2.2 Darparu Gwasanaethau

- 2.2.1 Nod yr Arolygiaeth yw darparu gwasanaeth cyson a dibynadwy i siaradwyr Cymraeg yn ein gwaith i gyd. Mae gan yr Arolygiaeth Gynllunio staff penodol i i ddarparu'r gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg ac mae gennym gontract gyda chwmni cyfieithu. Cyflwynir rhai o'r gwasanaethau a ddarperir gennym gan yr Arolygiaeth Gynllunio ym Mryste (e.e. Adnoddau Dynol, Cyllid, TG ac ati) ac mae gennym drefniadau ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at yr ymrwymadau a gynhwysir yn y cynllun hwn a'u gweithredu:
- Caiff aelodau newydd o'r staff gopi o'r cynllun fel rhan o'u hymsefydlu;
 - Mae rhannau eraill o'r Arolygiaeth Gynllunio sy'n gwneud gwaith yng Nghymru (e.e. darparu Arolygwyr ar gyfer Archwiliadau Cynllun Datblygu Lleol ac ar gyfer gwaith yn ymwneud â hawliau tramwy yng

Nghymru, neu wrth archwilio cynigion seilwaith cenedlaethol yng Nghymru ac ati) yn cadw at ymrwymïadau'r a gynhwysir yn y cynllun hwn; a

- Chynghorir aelodau staff i gysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio yng Nghaerdydd ynghylch unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg.

2.2.2 O safbwynt gwasanaethau a ddarperir ar ein rhan gan ACLlau (neu ein hyrwyddwr yn achos NSIP), byddwn yn eu hannog i ymateb yn gadarnhaol i Ddeddf yr Iaith Gymraeg i hwyluso defnydd o'r Gymraeg a darparu gwasanaeth dwyieithog. Bydd ein nodyn cyfleusterau i ACLlau yn cyfeirio at y cynllun hwn a bydd unrhyw gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn pwysleisio ymrwymiad yr Arolygiaeth Gynllunio i drin y Gymraeg a'r Saesneg mewn modd sy'n parchu'r egwyddor o gydraddoldeb.

2.3 Safon y Gwasanaeth yn y Gymraeg

2.3.1 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn croesawu cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn anelu at ddarparu gwasanaeth effeithiol yr un mor safonol yn y ddwy iaith.

2.3.2 Caiff yr egwyddor o ddarparu gwasanaeth yr un mor safonol yn y ddwy iaith ei hamlygu mewn dogfennau allweddol fel ein hadroddiad blynyddol a'n cynllun busnes a chorfforaethol.

2.3.3 Nod yr Arolygiaeth Gynllunio yw darparu safon uchel o wasanaeth a gofal cwsmeriaid ymhob agwedd ar ei gwaith yn unol â'r ymrwymïadau a gynhwysir yn y cynllun hwn.

2.3.4 Bydd pob targed safon siarter yn gymwys i'r ddwy iaith a chaiff y safonau a'u gweithrediad eu monitro'n fanwl. Rydym yn anelu at gysondeb o ran safonau ein gwasanaethau, waeth p'un a gaiff y gwasanaethau hynny eu darparu yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

3. Ymdrin â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

3.1 Cyfathrebu'n Ysgrifenedig ac yn Electronig

3.1.1 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn croesawu llythyrau a negeseuon electronig yn Gymraeg ac yn Saesneg:

- Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn ateb â llythyr Cymraeg wedi'i lofnodi.
- Mae ein hamserau targed ar gyfer ymateb i lythyrau yn Gymraeg yn union yr un peth ag ar gyfer ymateb i lythyrau yn Saesneg.
- Pan fyddwn yn ysgrifennu llythyr at unigolyn, grŵp neu sefydliad rydym yn gwybod eu bod yn gweithio'n bennaf yn Gymraeg neu fod yn well ganddynt dderbyn llythyrau yn Gymraeg, byddwn yn ysgrifennu yn Gymraeg.
- Pan fyddwn yn anfon llythyr safonol at sawl unigolyn neu sefydliad, bydd y llythyr yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan bawb ei dderbyn yn uniaith Saesneg neu'n uniaith Gymraeg.
- Byddwn yn cychwyn gohebu yn Gymraeg yn dilyn sgwrs wyneb yn wyneb neu sgwrs dros y ffôn yn Gymraeg oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan yr unigolyn hwnnw dderbyn gohebiaeth yn Saesneg.
- Rydym yn cadw cronfa ddata, sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd, o gwsmeriaid y mae'n well ganddynt dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg.
- Er mwyn hwyluso gohebu â'n cwsmeriaid yn Gymraeg, mae gan yr Arolygiaeth gontract gyda chwmni cyfieithu ac mae'r cyfleuster hwn ar gael i bob aelod o'r staff.

3.1.2 Pan fyddwn yn gohebu trwy gyfrwng negeseuon e-bost, bydd yr un egwyddorion yn gymwys â phan fyddwn yn gohebu ar bapur.

3.2 Llythyrau Penderfyniad ac Adroddiadau

3.2.1 Mae'r egwyddorion a restrir yn y paragraffau blaenorol yn gymwys i lythyrau penderfyniad a gyhoeddir gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Caiff y rhain eu cyfieithu i'r Gymraeg pan gânt eu hanfon at unigolyn neu sefydliad lle gwnaed y cysylltiad cyntaf yn Gymraeg neu lle bo'r unigolyn neu'r sefydliad hwnnw wedi gwneud cais dilynol am lythyr penderfyniad Cymraeg. Yn ogystal, cyhoeddir y llythyr penderfyniad yn ddwyieithog os gwnaed sylwadau arwyddocaol (e.e. gan brif bartïon neu drydydd bartïon neu 20+ o unigolion) yn y ddwy iaith yn ystod yr ymchwiliad neu'r gwrandawriad neu mewn achos sylwadau ysgrifenedig. Os cyhoeddir llythyr penderfyniad yn ddwyieithog, bydd y fersiynau o'r ddwy iaith yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd.

3.3 Cyfathrebu dros y Ffôn

3.3.1 Rydym yn croesawu ymholiadau dros y ffôn yn Gymraeg.

- Bydd aelodau staff switsfwrdd Llywodraeth Cymru yn ateb gyda chyfarchiad dwyieithog ar y llinell ddwyieithog (gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd) ac yn Gymraeg yn unig ar y llinell Gymraeg (gwasanaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn unig). Fodd bynnag, nid oes gan yr Arolygiaeth Gynllunio switsfwrdd canolog. Os bydd y sawl sy'n ffonio yn dymuno siarad Cymraeg, bydd y teleffonydd yn ceisio cysylltu'r alwad â siaradwr Cymraeg yn yr Arolygiaeth er mwyn ymdrin â'r ymholiad. Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael ac yn gallu ymdrin â'r ymholiad, bydd dewis gan y sawl sy'n ffonio naill ai i siaradwr Cymraeg ei ffonio yn ôl o fewn 24 awr, neu barhau â'r alwad yn Saesneg neu ysgrifennu atom yn Gymraeg drwy lythyr neu neges e-bost.
- Os bydd y sawl sy'n ffonio yn ffonio un o linellau uniongyrchol yr Arolygiaeth yng Nghaerdydd ac yn siarad Cymraeg ond nad yw'r unigolyn sy'n ateb yr alwad yn siarad Cymraeg, bydd ef neu hi yn ceisio trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr priodol sy'n siarad Cymraeg. Eto, os na fydd unrhyw un ar gael, bydd dewis gan y sawl sy'n ffonio naill ai i siaradwr Cymraeg ei ffonio yn ôl, neu barhau â'r alwad yn Saesneg neu ysgrifennu atom yn Gymraeg drwy lythyr neu neges e-bost.
- Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan na fydd neb ar gael fydd yn gallu ateb yr ymholiad yn llawn yn Gymraeg, yn enwedig os bydd yn gymhleth neu'n arbenigol. Yn yr achosion hyn, bydd rhywun yn gofyn i'r sawl sy'n ffonio am fanylion yr ymholiad, a bydd yn cael y dewis o drafod y mater yn Saesneg neu anfon yr ymholiad atom yn ysgrifenedig. Bydd unrhyw ymholiad ysgrifenedig yn Gymraeg yn cael ateb yn Gymraeg.
- Os na fydd yn bosibl i'r sawl sy'n ffonio siarad yn uniongyrchol â siaradwr Cymraeg ac os defnyddir cyfrwng arall i ateb yr ymholiad, dylai'r sawl sy'n ffonio deimlo y gwnaed pob ymdrech i fodloni'r cais gwreiddiol.
- Pryd bynnag y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru yn defnyddio peiriant ateb bydd unrhyw negeseuon yn gwbl ddwyieithog.
- Mae gan aelodau staff y switsfwrdd ac aelodau staff yr Arolygiaeth Gynllunio restr o'r aelodau staff a all ymdrin ag ymholiadau yn Gymraeg.

3.3.2 Caiff ymholiadau at sylw'r Gyfarwyddiaeth Seilwaith Cenedlaethol mewn perthynas â NSIP eu cyfeirio gan Dîm Gwasanaeth Cwsmeriaid yr Arolygiaeth Gynllunio ym Mryste at staff sy'n siarad Cymraeg yn y Gyfarwyddiaeth Seilwaith Cenedlaethol fel ymateb ail reng. Bydd y Gyfarwyddiaeth Seilwaith Cenedlaethol yn ei esbonio'n gir mewn unrhyw neges y bydd staff sy'n siarad Cymraeg wrthlaw i ymdrin ag unrhyw ymholiadau lle y mae enw cyswllt sy'n siarad Cymraeg yn well gan y sawl sy'n ffonio.

- 3.3.3 Lle y daw ymholiadau cyffredinol mewn perthynas â NSIP i law drwy linell Ymholiadau Cyffredinol yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru – neu drwy un o linellau uniongyrchol yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghaerdydd – cânt eu trosglwyddo fel arfer i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ymdrin â nhw yn swyddfa Caerdydd yr Arolygiaeth Gynllunio. Fodd bynnag, os yw'r ymholiad yn ymwneud ag achos penodol neu ei fod o natur arbenigol, caiff y sawl sy'n ffonio ei drosglwyddo i staff yn y Gyfarwyddiaeth Seilwaith Cenedlaethol. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael i ateb yr alwad, bydd egwyddorion paragraff 3.3.1 yn berthnasol.

3.4 Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb

- 3.4.1 Rydym yn croesawu ymholiadau personol yn Gymraeg ac mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaeth Cymraeg yn nerbynfa'r adeilad ym Mharc Cathays.
- Mae croeso i bobl sy'n galw yn swyddfeydd yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru drafod eu busnes yn Gymraeg os dymunant wneud hynny a byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau presenoldeb gweithiwr sy'n siarad Cymraeg i ymdrin ag ymholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.
 - Os bydd rhywun sy'n galw yn yr Arolygiaeth yng Nghaerdydd yn dymuno siarad Cymraeg ond na all yr aelod o'r staff sy'n ymdrin â'r ymholiad siarad Cymraeg, bydd ef neu hi yn ceisio cael help gan gydweithiwr priodol sy'n siarad Cymraeg. Os na fydd siaradwr Cymraeg priodol ar gael, bydd y sawl sy'n galw yn cael y cyfle i drafod y mater yn Saesneg, aros hyd nes bydd siaradwr Cymraeg ar gael, neu fel arall caiff ymholiad yr ymwelydd ei nodi a'i drosglwyddo i weithiwr priodol fel y gellir anfon ymateb ysgrifenedig wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg at yr ymwelydd.

3.5 Ymchwiliadau Cyhoeddus, Gwrandawiadau, Cyfarfodydd ac Ymweliadau Safleoedd yng Nghymru

- 3.5.1 Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd siarad Cymraeg mewn ymchwiliadau cyhoeddus, gwrandawiadau, cyfarfodydd ac ymweliadau safle a drefnir ar ran yr Arolygiaeth Gynllunio ac mewn sesiynau archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol.
- 3.5.2 Bydd deunydd cyhoeddusrwydd (yn cynnwys hysbysiadau ffurfiol) ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus, gwrandawiadau a chyfarfodydd yn amlygu'r ffaith y croesewir cyfraniadau gan y cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn yr un modd, bydd ein llythyrau yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer ymweliadau safle, yn rhoi gwybod i'r cyhoedd y gellir defnyddio'r ddwy iaith.
- 3.5.3 Mae'r ACLI, neu awdurdod perthnasol arall neu'r hyrwyddwr (yn achos NSIP) yn gyfrifol am drefnu lleoliadau ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus, gwrandawiadau, archwiliadau a chyfarfodydd. Cyfrifoldeb yr ACLI, yr awdurdod perthnasol eraill neu'r hyrwyddwr (yn achos NSIP) yw darparu cyfleusterau cyfieithu mewn digwyddiadau a drefnir ar ran yr Arolygiaeth Gynllunio.

- 3.5.4 Wrth drefnu ymchwiliadau cyhoeddus, gwrandawiadau, archwiliadau, cyfarfodydd neu ymweliadau safle ar ran yr Arolygiaeth, dylai'r ACLI, yr awdurdod perthnasol arall neu'r hyrwyddwr (yn achos NSIP) ystyried nid yn unig gofynion y cynllun hwn, ond mae'n rhaid hefyd iddo barhau i gydymffurfio ag ymrwymiad ei Gynllun Iaith Gymraeg neu'i Bolisiau Iaith Gymraeg ei hun.
- 3.5.5 Er enghraifft, os yw Cynllun Iaith Gymraeg neu Bolisi Iaith Gymraeg yr ACLI yn nodi y caiff cyfleusterau cyfieithu eu darparu ym mhob cyfarfod neu ymchwiliad cyhoeddus a drefnir gan y Cyngor, dylai'r ACLI sicrhau bod yr un cyfleusterau cyfieithu'n cael eu darparu'n safonol mewn digwyddiadau a drefnir ar ran yr Arolygiaeth.
- 3.5.6 Os na chaiff cyfleusterau cyfieithu eu darparu mewn digwyddiad a bo parti am siarad Cymraeg, gallai fod peth oedi oherwydd yr angen i gyfleusterau cyfieithu gael eu darparu. Mae hyn yn arbennig o debygol mewn unrhyw ardal lle y caiff ymweliad safle ei gynnal ac nad yw'r Arolygydd penodedig yn siaradwr Cymraeg. Bydd angen i'r Arolygydd benderfynu p'un a oes angen gohirio ymchwiliad cyhoeddus, gwrandawriad, cyfarfod neu archwiliad tra bo'r ACLI, yr awdurdod perthnasol arall neu'r hyrwyddwr (yn achos NSIP) yn trefnu cyfleusterau cyfieithu; os na fydd y rhain ar gael ar unwaith, bydd yr Arolygydd yn dirnad faint o amser y bydd hyn yn ei gymryd. Bydd yr Arolygydd yn gohirio pethau yn ôl yr angen i sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu'n cael eu darparu er mwyn galluogi'r unigolyn/unigolion dan sylw i gynnal cyfraniadau at achosion yn Gymraeg.
- 3.5.7 Pan fydd trefniadau yn cael eu gwneud i gynnal ymchwiliad, gwrandawriad neu ymweliad safle, bydd lleoliad y digwyddiad a'r sawl sy'n debygol o fod yn bresennol (yn ogystal â'r pwnc o dan ystyriaeth) yn ffactorau perthnasol wrth benderfynu a ddylid penodi Arolygydd sy'n medru'r Gymraeg (gan ddibynnu a oes un ar gael ai peidio).
- 3.5.8 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn darparu Arolygwyr hefyd i archwilio cadernid Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n cael eu llunio gan ACLIau. Byddwn yn gwneud trefniadau gyda'r ACLI i sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar gael yn y digwyddiau os bydd unrhyw un am siarad yn Gymraeg. Byddwn yn ceisio penodi Arolygydd sy'n siarad Cymraeg, os bydd un ar gael â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gynnal archwiliadau o Gynlluniau Datblygu Lleol.
- 3.5.9 Yn achos ceisiadau am ganiatâd datblygu ar gyfer NSIP, bydd yr Arolygiaeth yn tynnu sylw hyrwyddwyr at y cynllun hwn ac yn annog hyrwyddwyr yn gryf i baratoi deunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog, dogfennau ymgynghori a chymhwyso cyn gwneud cais ar gyfer cynigion NSIP yng Nghymru, lle bo'n briodol.
- 3.5.10 Er ei bod yn annog yn gryf hyrwyddwyr NSIP yng Nghymru i ddarparu dogfennau priodol yng Nghymru, ni fydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cyfieithu dogfennau a gyflwynir gan hyrwyddwyr neu unrhyw barti arall. Bydd darparu cyfieithiadau lle bo'n briodol yn gyfrifoldeb y parti sy'n cyflwyno'r ddogfen.

3.6 Dulliau Eraill o Ymdrin â'r Cyhoedd

- 3.6.1 Mewn perthynas â digwyddiadau eraill yng Nghymru y mae'r Arolygiaeth yn llwyr gyfrifol am eu trefnu (h.y. unrhyw ddigwyddiadau ar wahân i'r rhai a restrir yn Adran 3.5 uchod), byddwn yn sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar gael, a bod yr holl ddeunydd sy'n cael ei ddefnyddio ar gael yn ddwyieithog.
- 3.6.2 Byddwn yn sicrhau bod y Gymraeg a Saesneg yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal mewn unrhyw ddulliau eraill o ymdrin â'r cyhoedd (e.e. cyfryngau rhyngweithiol), lle y bydd y mesurau a amlinellir uchod yn berthnasol.

4. Wyneb Cyhoeddus yr Arolygiaeth Gynllunio

4.1 Delwedd Gorfforaethol

- 4.1.1 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog. Rydym yn sicrhau bod pob papur pennawd, logo, gweledigaeth ac amcan ac unrhyw wybodaeth safonol arall ar gyfer ein busnes cyhoeddus yng Nghymru ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg.
- 4.1.2 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn sicrhau bod maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd testun ar arwyddion yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb.

4.2 Cyhoeddiadau

- 4.2.1 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn addo ar unrhyw adeg y bydd yn argraffu ac yn cyhoeddi deunydd a fwriedir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, ei harfer safonol fydd gwneud hynny yn ddwyieithog.
- 4.2.2 Bydd y wybodaeth argraffedig ar holl bapur pennawd, slipiau cyfarch, taflenni ffacs eglurhaol ac eitemau swyddfa tebyg yr Arolygiaeth Gynllunio i'w defnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog.
- 4.2.3 Mae 'Cyhoeddiadau' yn cynnwys, ond nid wedi'u cyfyngu i lyfrynnau, taflenni, dogfennau ymgynghori, poster, sticeri, deunydd marchnata amrywiol, nodiadau arweiniad, nodiadau cyngor a chodau ymarfer ac ati. Mae hyn yn cynnwys CD-ROMs a dogfennau neu eitemau a roir gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ein gwefan, waeth p'un ai ydynt yn bodoli mewn fformat copi caled ai peidio. Cynhyrchir rhywfaint o arweiniad argraffedig a ddefnyddir gan yr Arolygiaeth yng Nghymru gan y rhiant adrannau. Byddwn yn eu gwneud yn ymwybodol o'n cynllun ac yn darparu arweiniad ysgrifenedig ar eu cyfer ar gyfer ymdrin â chyhoeddiadau dwyieithog.
- Byddwn yn defnyddio fersiwn ddwyieithog pob cyhoeddiad o'r fath cyn gynted â'u bod ar gael.
 - Mae'r Arolygiaeth yn cyhoeddi ei Chynlluniau Corfforaethol a Busnes, Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon ac Adroddiad Ystadegol yn flynyddol. Bydd y rhain yn ddwyieithog.

- Lle nad yw'n bosibl neu'n briodol cynhyrchu deunydd argraffedig yn ddwyieithog, caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg eu cynhyrchu ar wahân. Mewn achosion o'r fath bydd y ddwy fersiwn o'r un safon, yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, eu dosbarthu ar yr un pryd ac yr un mor hawdd cael gafael arnynt a byddant yn dwyn neges yn datgan bod fersiwn Gymraeg/Saesneg ar gael hefyd.
- Lle codir tâl am unrhyw gyhoeddiad, bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un peth. Ni fydd pris unrhyw gyhoeddiad dwyieithog yn fwy na phris fersiwn uniaith y ddogfen honno.
- Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cadw'r hawl i gynhyrchu deunydd mewn fersiwn uniaith yn unig ond dim ond o ran eitemau a gynhyrchir ar gyfer cynulleidfa neu eitemau arbenigol o natur wyddonol neu dechnegol gymhleth.
- Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn trefnu gyda'r rhiant Adrannau pan fydd fersiynau ar wahân i gael eu cyhoeddi yng Nghymru a Lloegr o'r un cyhoeddiad neu gyhoeddiad tebyg fel y gellir cydweithredu o ran cynllunio ac amseru'r cyhoeddiad.

4.3 Ffurflenni

4.3.1 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cyhoeddi ffurflenni apêl a nodiadau esboniadol cysylltiedig ar gyfer yr ystod eang o achosion y mae'n ymdrin â nhw.

- Byddwn yn sicrhau y bydd ein holl ffurflenni a'r esboniadau ategol ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni a gyhoeddir ar ein gwefan ni neu wefannau ein partneriaid (yn benodol y Gwasanaeth Gwaith Achos Cynllunio a lywir gan y Porth Cynllunio: www.planningportal.gov.uk)

4.4 Hysbysiadau i'r Wasg

4.4.1 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn sicrhau y bydd unrhyw hysbysiadau i'r wasg a gyhoeddwn yn ddwyieithog.

4.4.2 Byddwn hefyd yn annog ein rhiant adrannau, yn enwedig pan gaiff yr hysbysiad ei baratoi y tu allan i Gymru ac mewn achosion sy'n ymwneud â Chymru, i ystyried cyhoeddi hysbysiadau yn ddwyieithog.

4.5 Hysbysiadau Cyhoeddus Swyddogol a Hysbysebion Recriwtio

4.5.1 Bydd hysbysiadau cyhoeddus mewn papurau newydd sydd wedi eu lleoli yng Nghymru yn ddwyieithog. Pan na fydd yn ymarferol gwneud hyn (dim ond ar gyfer hysbysiadau hir iawn y bydd hyn yn wir), gosodir hysbysiadau Cymraeg mewn papurau newydd Cymraeg eu hiaith a'r un hysbysiad yn Saesneg mewn papurau newydd Saesneg eu hiaith.

4.5.2 Bydd hysbysebion recriwtio staff mewn papurau newydd wedi eu lleoli yng Nghymru yn ddwyieithog.

4.5.3 Bydd hysbysebion recriwtio staff ym mhrif bapurau newydd y DU yn uniaith Saesneg.

4.5.4 Os ystyrir bod rhuglder yn y Gymraeg yn hanfodol mewn swydd benodol, caiff hyn ei amlygu yn y swydd-ddisgrifiad a hysbysebion recriwtio staff. Yna caiff y swydd ei hysbysebu yn ddwyieithog ym mhapurau newydd Cymru a/neu'r DU.

4.6 Gweithgareddau Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd

4.6.1 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio, os bydd yn ymwneud â chynllunio a gweithredu ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, yn ceisio gweithredu'r amcanion canlynol:

- Caiff yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd sydd i'w ddefnyddio yng Nghymru ei gynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- Caiff unrhyw ymgyrchoedd hysbysebu yn y wasg yng Nghymru eu cynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- Bydd unrhyw ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd teledu a radio a bwletinâu gwybodaeth a ddarlledir i'r cyhoedd yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- Bydd unrhyw bosteri, hysbysfyrddau neu negeseuon electronig yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- Cynhelir unrhyw arolygon cyhoeddus yng Nghymru, drwy'r post, o ddrws i ddrws, dros y ffôn neu yn electronig, yn ddwyieithog;
- Bydd unrhyw arddangosfeydd a stondinau gwybodaeth gyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog; a,
- Bydd unrhyw ffurf arall ar hysbysebu a chyhoeddusrwydd, gan gynnwys seminarau a chynadleddau, bob amser yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

4.7 Gwefan

4.7.1 Daeth gwefan yr Arolygiaeth Gynllunio i ben ym mis Hydref 2011 fel rhan o raglen ad-drefnu gwefannau Llywodraeth y DU – a oedd â'r nod o leihau nifer gwefannau'r Llywodraeth. Mae arweiniad ar apelïadau a mathau eraill o waith achos arall rydym yn ymdrin ag ef ar gael ar y Porth Cynllunio erbyn hyn (www.planningportal.gov.uk), mae'r holl wybodaeth gorfforaethol mewn perthynas â gwaith yng Nghymru ar gael ar www.planninginspectorate.wales.gov.uk erbyn hyn. Mae'r holl wybodaeth a gyhoeddir gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar y gwefannau uchod yn ddwyieithog a gall aelodau o'r cyhoedd weld gwybodaeth am yr Arolygiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a newid o un iaith i'r llall.

4.7.2 Bydd gwybodaeth am NSIP ar gael ar y Porth Cynllunio yn Gymraeg erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2014 – 2015.
(*Targed: diwedd blwyddyn ariannol 2014 – 2015*)

4.7.3 Nid yw'r Arolygiaeth Gynllunio yn gyfrifol yn uniongyrchol am ddiweddaru gwybodaeth ar y Porth Cynllunio. Fodd bynnag, caiff y tudalennau Cymraeg a

Saesneg ar y Porth Cynllunio sy'n ymwneud ag apeliadau a gwaith achos arall eu gwerthuso a'u diweddaru ar yr un pryd.

- 4.7.4 Darperir dogfennau, adroddiadau a ffurflenni sydd ar gael ar y wefan yn Gymraeg ac yn Saesneg ynghyd â gwybodaeth y gellir ei lawrlwytho yn rhwydd yn y ddwy iaith.
- 4.7.5 Bydd yr holl adnoddau a darpariaeth Cymraeg a Saesneg yn gyson o ran eu diweddaru, cywirdeb, amlygrwydd, eglurder a'u hansawdd.
- 4.7.6 Caiff staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwyd gyfarwyddyd ysgrifenedig (e.e. Canllawiau Dylunio Dwyieithog) i'w cynorthwyo i lunio ac ymdrin â deunydd dwyieithog.

5. Gweithredu'r Cynllun

5.1 Staffio

- 5.1.1 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru yn addo sicrhau y bydd nifer ddigonol o aelodau staff gweinyddol ar gael i gyflawni ein hymrwymiad i'r cynllun hwn. Er mwyn i'r cynllun hwn fod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i'r Arolygiaeth gael digon o aelodau staff â'r sgiliau priodol sy'n medru'r Gymraeg.

Rydym wedi adnabod y swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg naill ai'n hanfodol neu'n fuddiol er mwyn darparu gwasanaethau yn unol â'r cynllun hwn, ac i lunio manylebau timau a swydd-ddisgrifiadau yn unol â hyn. Mae cynnydd mewn gweithredu'r cynllun yn cael ei fonitro a chymerir camau os bydd yr adnodd o aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn gostwng. Y Cyfarwyddwyr sy'n penderfynu ar y ffordd orau o gyflawni hyn, drwy hyfforddi neu drosglwyddo neu recriwtio aelodau staff. Lle y bo'n briodol, ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn un o amryw o elfennau i lenwi swyddi gwag sy'n codi, yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal yr Arolygiaeth.

- 5.1.2 Bydd rheolwyr sy'n gyfrifol am benodi, hyfforddi a goruchwylio staff yn sicrhau y cedwir at y Cynllun yn y cyd-destun hwn.

5.2 Recriwtio

- 5.2.1 Cynhelir pob ymarferiad recriwtio i'r Arolygiaeth yn unol â rheolau'r Gwasanaeth Sifil ar gystadleuaeth deg ac agored. Ystyr hyn yw y dewisir yr unigolyn gorau ar gyfer y swydd wag dan sylw. Mewn achosion priodol bydd y gallu i siarad Cymraeg yn ofynnol neu'n briodoledd ddymunol a rhoddir ystyriaeth briodol i allu ieithyddol ymgeiswyr:

- Byddwn yn cadw mewn cof y fantais o gael nifer o siaradwyr Cymraeg wrth recriwtio Arolygwyr Cynllunio, a nodir hyn yn yr hysbyseb.
- Byddwn yn gosod hysbysebion recriwtio ychwanegol mewn papurau newydd Cymraeg eu hiaith, hyd yn oed pan nad yw'r swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol.

- Lle yr ystyrir bod gallu ieithyddol yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer unrhyw swydd, caiff hyn ei amlygu wrth recriwtio i'r swydd honno.
- Lle penodir unigolyn nad yw'n siarad Cymraeg i swydd y mae'r Arolygiaeth yn ystyried bod siaradwr Cymraeg yn hanfodol ar ei chyfer, amod cyflogaeth fydd dysgu'r iaith i'r lefel ofynnol o fewn cyfnod y cytunir ei fod yn rhesymol, gyda chefnogaeth lawn yr Arolygiaeth.
- Bydd y Cyfarwyddwyr yn amlygu'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, ac yn sicrhau y gwneir penodiadau yn unol â hyn.
- Er mwyn hwyluso'r cynllun hwn, bydd yr Arolygiaeth yn cadw rhestr o'r holl weithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg.

5.3 Dysgu Cymraeg

5.3.1 Er mwyn sicrhau bod yr Arolygiaeth Gynllunio yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg i safon uchel yn effeithiol ac yn effeithlon, mae darparu hyfforddiant iaith yn chwarae rhan bwysig wrth gynyddu nifer yr aelodau staff sy'n gallu gweithio'n hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly mae'r Arolygiaeth yn annog staff i fynychu cyrsiau priodol.

5.3.2 Er mwyn rhoi'r ymrwymiad uchod ar waith, mae'r gofynion hyfforddi canlynol yn parhau i fod yn flaenoriaeth:

- Gwella Cymraeg gwaith staff sydd eisoes yn siaradwyr Cymraeg rhugl i lefel lle y gallant weithio'n effeithiol yn Gymraeg drwy annog hyfforddiant pellach.
- Annog pob aelod o staff sy'n dymuno gwneud hynny i ddysgu Cymraeg i'w galluogi i ymdrin ag ymholiadau syml gan aelodau o'r cyhoedd.
- Cynorthwyo a chefnogi aelodau staff sydd â'r lefel angenrheidiol o ymrwymiad i ymgymryd â hyfforddiant iaith i ddysgu Cymraeg neu i wella eu Cymraeg.
- Dosbarthu'r holl gyfleoedd a hysbysebwyd ar gyfer hyfforddiant i aelodau staff;
- Sicrhau bod yr holl Arolygwyr sy'n gweithio yng Nghymru yn medru defnyddio cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

5.4 Hyfforddiant galwedigaethol

5.4.1 Anogir aelodau staff i ddilyn cyrsiau sy'n berthnasol i'r gweithle ac i ennill cymwysterau addas er mwyn sicrhau bod gan yr Arolygiaeth Gynllunio ddigon o aelodau staff â'r sgiliau perthnasol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog.

5.5 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg

- 5.5.1 Bydd y tîm pwrpasol yn yr Arolygiaeth Gynllunio yn parhau i ddarparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ar gyfer aelodau presennol ac aelodau newydd o'r staff. Bydd yr hyfforddiant yn amlygu'r angen i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Byddwn yn ystyried y ffordd orau o ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer ein haelodau presennol o staff, ac wrth wneud hynny, cawn ein harwain gan Gynllun Iaith Llywodraeth Cymru a'u *Pecyn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Iaith*, a ddatblygwyd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.6 Bathodynnau Iaith Gwaith

- 5.7.1 Byddwn yn sicrhau bod bathodynnau Iaith Gwaith ar gael i'r holl aelodau staff sy'n siarad Cymraeg ac i ddysgwyr fel y gall cwsmeriaid mewnol ac allanol eu hadnabod a defnyddio eu dewis iaith pan fyddant yn derbyn gwasanaethau.

Rydym wedi mabwysiadu dulliau eraill o adnabod siaradwyr Cymraeg hefyd – er enghraifft, drwy ddefnyddio bathodynnau Iaith Gwaith ar negeseuon e-bost ac ati.

5.7 Trefniadau Gweinyddol

- 5.7.1 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff gopi o'r Cynllun hwn.
- 5.7.2 Byddwn yn pwysleisio cyfraniad pob aelod staff i lwyddiant gweithredu'r Cynllun hwn, p'un ai ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio.
- 5.7.3 Darperir canllawiau ysgrifenedig ynghylch gweinyddu'r cynllun hwn ar gyfer aelodau staff. Bydd y canllawiau ysgrifenedig hyn yn arbennig o ddefnyddiol i aelodau staff nad ydynt yn siarad Cymraeg wrth iddynt ateb gohebiaeth Gymraeg gan aelodau o'r cyhoedd.

5.8 Gwasanaethau a Ddarperir ar Ein Rhan gan Bartïon Eraill

- 5.8.1 Cyflawnir rhai o'r gwasanaethau a ddarperir gennym i'r cyhoedd yng Nghymru gan sefydliadau eraill fel ymgynghorwyr a chontractwyr. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod unrhyw gytundebau yn dilyn telerau'r cynllun hwn lle y bo'n berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ar ein rhan.
- Pan fyddwn yn rhoi gwasanaethau newydd neu bresennol a ddarperir gennym yng Nghymru allan i gontract, byddwn yn rhestru'r gofynion ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw ddogfennau tendro a chontractau. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir yn gyson â thelerau'r cynllun hwn.
 - Byddwn yn sicrhau bod gan y staff sy'n ymdrin ag asiantau a chontractwyr gyfarwyddiadau gweithdrefnol ysgrifenedig a byddwn yn monitro'r gweithdrefnau er mwyn gweld eu bod yn gweithio'n effeithlon ac yn unol â'r cynllun hwn.
 - Byddwn yn monitro gweithredu gofynion y cynllun hwn mewn unrhyw gytundebau neu gontractau; byddwn yn cael adroddiadau perfformiad

rheolaidd gan gcontractwyr ac unrhyw barti arall sy'n rhan o unrhyw gytundeb gyda'r Arolygiaeth Gynllunio.

5.9 Gwasanaeth Cyfieithu

- 5.9.1 Mae gan yr Arolygiaeth Gynllunio gcontract gyda gwasanaeth cyfieithu Cymraeg sy'n hanfodol i lwyddiant y cynllun hwn. Caiff ansawdd a chyflymder y gwasanaeth eu monitro'n fanwl, a chaiff ei waith ei adolygu'n rheolaidd.

6. Gweithredu a Monitro

6.1 Cymeradwyaeth Lawn yr Arolygiaeth Gynllunio

- 6.1.1 Mae Prif Weithredwr a Bwrdd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gwbl ymwybodol o ofynion y cynllun hwn a byddant yn sicrhau yr adlewyrchir y gofynion hyn wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd gan yr Arolygiaeth a chan eraill sy'n gweithredu ar ein rhan.

6.2 Monitro

- 6.2.1 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn monitro'r Cynllun hwn ac yn sicrhau y bydd yn weithgaredd parhaus, strwythuredig.
- 6.2.2 Ar ôl pob blwyddyn ariannol, bydd Cyfarwyddwr Cymru yn cyflwyno adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch cynnydd ar y Cynllun Iaith Gymraeg.
- 6.2.3 Byddwn yn parhau i fonitro ein cynnydd a'n perfformiad wrth fodloni'r ymrwymadau a restrir yn y cynllun hwn. Os bydd unrhyw un o'r ymrwymadau heb eu bodloni, bydd yr adroddiad yn egluro'r rheswm dros hyn ac yn nodi pa gamau y bwriadwn eu cymryd.
- 6.2.4 Pwrpas yr adroddiad fydd:
- Mesur p'un ai yw'r Arolygiaeth Gynllunio yn cydymffurfio â'r cynllun hwn;
 - Mesur ansawdd gwasanaeth yr Arolygiaeth Gynllunio yn Gymraeg;
 - Dadansoddi perfformiad yr Arolygiaeth Gynllunio yn gorfforaethol ac yn thematig, er mwyn sicrhau cysondeb; ac
 - Adnabod unrhyw ddiffygion sylfaenol a chynnwys cynllun gweithredu ag amserlen i'w hunioni.
- 6.2.5 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn sicrhau y cofnodir unrhyw ohebiaeth, ymholiadau ac ymatebion ar gyfer monitro lefel y gwasanaeth. Yn benodol, bydd yr adroddiad yn dadansoddi ac yn gwerthuso'r canlynol:
- Y modd y llunnir ac y cyflwynir polisïau neu weithdrefnau newydd er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y cynllun hwn.

- Cyfran yr ohebiaeth Gymraeg a'r un Saesneg a atebir o fewn y targed terfyn amser.
- Canran y galwadau ffôn a dderbynnir yn Gymraeg.
- Defnyddio cyfleusterau cyfieithu mewn ymchwiliadau cyhoeddus lleol, gwrandawladau, archwiliadau, cyfarfodydd ac ymweliadau safle yng Nghymru.
- Pa mor dda y mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn annog ac yn hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan bartïon eraill.
- Sut y mae'r dasg o weithredu mesurau staffio a recriwtio yn gweithio.
- P'un ai yw'r gwasanaethau a ddarperir ar ein rhan gan bartïon eraill neu gontractwyr yn cydymffurfio â'r telerau a'r amodau a nodir yn eu cytundebau neu eu trefniadau.
- Nifer y cwynion – yn ysgrifenedig ac ar lafar fel ei gilydd – gan aelodau o'r cyhoedd sy'n deillio o fethu â chydymffurfio â'r cynllun hwn ynghyd â'r ymatebion a wnaed.

6.2.6 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cynnal arolwg parhaus o'r holl ddeunydd a gyhoeddir, y trefniadau ar gyfer hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg, y gwaith o gadw rhestrau o weithwyr sy'n siarad Cymraeg a chyfleusterau cyffredinol ar gyfer ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

6.2.7 Pan fydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cynnal unrhyw arolygon boddhad ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, byddwn yn cynnwys y cyhoedd yng Nghymru a fydd yn cael gwahoddiad i gyflwyno sylwadau ar ansawdd y gwasanaethau Cymraeg.

7. Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

7.1 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cyfeirio at y cynllun hwn yn ei Hadroddiad Blynnyddol cyhoeddedig, ei chynllun busnes a chorfforaethol ac unrhyw ddeunydd gwybodaeth arall a gynhyrchir ganddi a bydd yn pwysleisio i'r cyhoedd fod yr Arolygiaeth, bob amser, yn croesawu cyfathrebu i'r un graddau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

7.2 Bydd y cynllun ar gael am ddim fel dogfen ddwyieithog o swyddfa yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghaerdydd:

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2082 3866 / 3892
E-bost: wales@pins.gsi.gov.uk

7.3 Bydd y cynllun diwygiedig ar gael hefyd ar ein gwefan www.planninginspectorate.wales.gov.uk.

7.4 Hysbysebir mabwysiadu'r cynllun cymeradwy drwy hysbysiadau yn y wasg hefyd.

8. Cwynion a Sylwadau

- 8.1 Rydym yn gobeithio na fyddwn yn rhoi achos i gwyno. Byddwn yn arolygu'n agos pa mor llwyddiannus yr ydym wrth fodloni'r ymrwymadau yn y cynllun hwn. Os byddwn yn methu â bodloni'r ymrwymadau hyn, gobeithiwn y bydd aelodau o'r cyhoedd yn rhoi gwybod i ni. Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn ynglŷn â gwasanaethau Cymraeg yr Arolygiaeth Gynllunio at Gyfarwyddwr Cymru:

Cyfarwyddwr Cymru
Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2082 3866

- 8.2 Os na fyddwch yn fodlon ar ein hymateb, yna gellir cyfeirio'r mater at Gomisiynydd y Gymraeg.
- 8.3 Rydym hefyd yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaethau a ddarparwn drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid cyflwyno unrhyw awgrymiadau o'r fath i'r cyfeiriad uchod lle y cânt eu hystyried fel rhan o'n harolwg parhaus o'r ffordd y cyflwynwn ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

9. Amserlen

- 9.1 Mae'r Arolygiaeth Gynllunio eisoes wedi gweithredu llawer o'r mesurau a gynhwysir yn y cynllun hwn. Fodd bynnag, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cydnabod bod y cynllun hwn yn ddatblygiadol a chaiff ei adolygu a'i wella yn barhaus er mwyn bodloni anghenion y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio eisoes yn dilyn egwyddorion y cynllun hwn a bydd yn eu derbyn yn ffurfiol ar ôl i gynnwys y cynllun hwn gael ei gymeradwyo.
- 9.2 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn cydymffurfio â'r cynllun hwn o 03 Medi 2014.